| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Ebrill 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Yr Arweinydd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru - Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru o'r enw Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol ("y Papur").

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ynglŷn ag ymateb drafft i ymgynghoriad ynglŷn â'r Papur i'w gyflwyno ar ran y Cyngor cyn y dyddiad cau ar 28 Ebrill 2015

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn ystyried yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad sydd ynghlwm yn Atodiad 4 ac yn cymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cyhoeddwyd y Papur ar 3 Chwefror 2015 gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyhoeddwyd y Papur mewn tair fersiwn, y fersiwn lawn, y fersiwn pob dydd (crynodeb) a'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc. Mae'r fersiwn lawn ynghlwm yn Atodiad 1. Gellir gweld y ddwy fersiwn arall drwy ddilyn y ddolen ganlynol: http://gov.wales/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy

4.2 Mae'r Papur yn hirfaith, mae ynddo naw pennod ac mae'n cynnwys nifer o gynigion polisi clir, sy'n ailadrodd ymrwymiadau polisi blaenorol (megis uno, cysylltiadau â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol ac ati) ond mae hefyd yn cynnwys nifer o gwestiynau penagored sy'n ceisio barn am ddewisiadau polisi. Ynghyd â'r Papur daeth arolwg ymgynghori, ac mae copi ohono ynghlwm yn Atodiad 2.

4.3 Mae rhai o'r cynigion a'r dewisiadau polisi yn gymhleth, ond mae'r Papur Gwyn yn cynnig manylion cyfyngedig o ran sut y byddai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith.

4.4 Mae oddeutu 100 tudalen i'r Papur ac mae'r arolwg ymgynghori yn ychwanegu 30 tudalen arall ato. Nid yw felly'n bosibl amlinellu pob un o'r cynigion a wneir o fewn y ddogfen hon. Cafodd copi o'r nodyn briffio sy'n crynhoi prif bwyntiau'r papur eu darparu i Weithdy'r Cyngor ar 26 Mawrth ac mae ynghlwm yn Atodiad 3. Mae manylion pellach ar gael yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 13 Mawrth ac i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Mawrth.

4.5 Mae'r Arolwg Ymgynghori, fel y nodir uchod, yn hirfaith ac yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau a blychau ticio i nodi a ydym yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau penodol. Cynigir bod y Cyngor yn cyflwyno ymateb naratif i'r Papur sy'n ceisio ymdrin â phob un o'r materion a gwmpesir yn yr Arolwg Ymgynghori. Dylai'r ymateb, hefyd, amlinellu'r materion hynny sydd fwyaf pwysig i lwyddiant yr awdurdodau unedig newydd ym marn y Cyngor a'r materion y mae'r Cyngor o'r farn sydd yn llai pwysig neu debygol lesteirio'r awdurdodau newydd rhag bod â lefelau uchel o berfformiad a gwelliant.

4.6 Mae'r ymateb drafft i'w weld yn Atodiad 4 ac mae'n amlinellu'r prif faterion y mae'r Cyngor yn eu croesawu ac yn rhoi beirniadaeth adeiladol pan fo hynny'n briodol. Yn ogystal, mae'r ymateb yn nodi'r materion hynny y mae'r Cyngor yn anghytuno â nhw ac a fyddai, ym marn y Cyngor, yn cyfyngu ar allu'r awdurdodau unedig newydd i berfformio'n dda ac i wella. Atodir ymateb manwl i bob un o gwestiynau'r arolwg i'r ymateb.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ni fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid atodi templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi fel atodiad i'r adroddiad hwn.

7.1 Nid oes rhaid gwneud asesiad.

## 8 Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Trafodwyd y Papur gan Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio, gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac mewn un o Weithdai'r Cyngor.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

9.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai angen ystyried unrhyw gynigion sy'n dod i'r amlwg ar ôl hynny naill ai

drwy ddeddfwriaeth neu arweiniad y llywodraeth yn unigol er mwyn asesu’r goblygiadau o ran cost a threfniadaeth.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y risg o beidio ag ymateb i'r ymgynghoriad yw na fydd barn y Cyngor yn cael ei chymryd i ystyriaeth pan fydd y Llywodraeth yn ystyried deddfu mewn perthynas â'r cynigion sydd wedi eu nodi yn y Papur.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol Act1972.